| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **17 Gorffennaf 2023** |
| **TEITL** | **Balansau Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2022/23** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

## 1 Cyfrifon Terfynol 2022/23

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2023 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2023 -

| | canran | 31/03/2022 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2023 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 24.35% | £9,125,302 | -£2,551,499 | £6,573,803 | 17.10% |
| Dilynol | 14.64% | £843,785 | -£22,932 | £820,853 | 13.33% |
| Uwchradd | 16.69% | £6,066,267 | -£2,085,576 | £3,980,691 | 10.39% |
| Arbennig | 15.35% | £661,596 | -£119,916 | £541,680 | 12.06% |
| **Cyfanswm** | **19.90%** | **£16,696,951** | **-£4,779,924** | **£11,917,027** | **13.63%** |

1.3 Lle ydan ni wedi gweld balansau ysgolion wedi cynyddu yn sylweddol dros y cyfnod COVID, rydym rwan yn gweld lleihad yn y balansau. Mae hyn yn sgil gwariant unwaith ac am byth yn digwydd yn 2022/23 ac hefyd cyflogi yn ychwanegol ar delerau dros dro.

1.4 Mae 87 ysgol yn cario balansau sydd dros 5%, gyda 69 ysgol yn cario balansau uwchben y trothwyon £50,000 a £100,000.

1.5 Mae 2 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o’u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion

Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –

- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir erbyn 14 Gorffennaf 2023
- yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda'r ysgol bydd yr Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio'r balansau a hynny erbyn 30 Medi 2023
- adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu'r arian yn ôl erbyn 31 Rhagfyr 2023
- mae cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella'r ysgol

2.3 Mae atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 54 ysgol gynradd (amrywio rhwng £100-£247,593 uwchben trothwy £50mil)
- 2 ysgol ddilynol (amrywio rhwng £306,904-£313,949 uwchben trothwy £100mil)
- 11 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £64,943-£601,567 uwchben y trothwy £100mil)
- 2 ysgol arbennig (amrywio rhwng £137,513-£204,168 uwchben y trothwy £100mil)

## 3. Casgliad

3.1 Mae ysgolion yn defnyddio balansau i gefnogi disgyblion presennol. Wrth osod cyllidebau 2023/24 mae defnydd pellach o'r balansau a rhagwelir lleihad sylweddol pellach erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gydag ysgolion i wneud defnydd doeth o'r balansau sylweddol sydd yn parhau ar gael yn 2023/24.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**